# Gofalu am geffylau ar ôl ymarfer

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gofalu am geffylau ar ôl ymarfer corff. Bydd hyn yn cynnwys ystod o geffylau, yn cynnwys ceffyl poeth, chwyslyd yn syth ar ôl ymarfer a cheffyl gwlyb ar ddiwrnod oer ar ôl dychwelyd o ymarfer.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. dewis a pharatoi offer a dillad addas i ofalu am geffylau ar ôl ymarfer
3. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
4. darparu gofal, sy'n briodol i gyflwr y ceffyl ar ôl ymarfer
5. gwirio coesau a thraed y ceffyl ar ôl ymarfer
6. hysbysu'r person priodol ynghylch iechyd a chyflwr y ceffyl, gallai hyn fod ar lafar neu'n ysgrifenedig
7. rhoi bwyd a dwr i'r ceffyl, yn unol â'r cyfarwyddiadau
8. mynd â'r ceffyl yn ôl i'r stabl neu'r cae gan sicrhau esmwythdra a diogelwch
9. glanhau a thrin y ceffyl, yn unol â'r cyfarwyddiadau
10. cael eglurhad os nad yw'r cyfarwyddiadau'n glir
11. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am  offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. arwyddion o flinder a straen yn y ceffyl yn dilyn ymarfer, yn cynnwys arwyddion nad yw'r ceffyl yn gwella ac adnabod arwyddion cyntaf dysychu
4. gofynion porthiant a dwr y ceffyl yn dilyn ymarfer
5. anghenion y ceffyl yn dibynnu ar hyd a dwyster yr ymarfer a'r amser o'r flwyddyn
6. gofynion trin a glanhau ceffylau, yn dilyn gwaith
7. sut i ddewis a defnyddio offer a dillad priodol i ofalu am geffylau ar ôl ymarfer
8. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
9. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth o berfformiad er mwyn gofalu am ddau geffyl gwahanol ar ôl gwaith ar ddau achlysur.

Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth o berfformiad ar gyfer gofalu am un o'r canlynol:

- ceffyl poeth chwyslyd yn syth ar ôl ymarfer
- ceffyl gwlyb ar ddiwrnod oer ar ôl dychwelyd o ymarfer

## Geirfa

Offer:

- deunydd golchi
- coler pen
- offer trin

Dillad

- cynfas chwys
- carthen gynnes

Gofalu am geffylau ar ôl ymarfer

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq213 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; iechyd a lles anifeiliaid; ymarfer |